



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



Ymateb i'r ymgynghoriad

Strategaeth Ymchwil a Datblygu Gofal
Cymdeithasol i Gymru
2017-2022





Ymchwil Iechyd
a Gofal **Cymru**
Health and Care
Research **Wales**

Manylion cyswllt

Gofal Cymdeithasol Cymru

Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444

Minicom: 029 2078 0680

E-bost: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru

gofalcymdeithasol.cymru

Twitter: @GofCymdeithasol

© 2017 Gofal Cymdeithasol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhychu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatâd ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylai ymholiadau am atgynhychu y tu hwnt i'r hyn a ganiateir yn benodol gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

Fformatau eraill:

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras neu mewn fformatau eraill os oes angen. Mae fersiwn Saesneg ar gael hefyd.

Adroddiad ar yr ymgynghoriad ar y strategaeth ymchwil a datblygu gofal cymdeithasol i Gymru.

1. Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Ym mis Mehefin 2017, fe gyhoeddodd ni fersiwn ddrafft o'r strategaeth ymchwil a datblygu gofal cymdeithasol i Gymru 2017-2022 er mwyn ymgynghori arni.

Datblygwyd y strategaeth mewn partneriaeth gan Gofal Cymdeithasol Cymru, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru¹, Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru² ac ystod eang o randdeiliaid i ddarparu dull cydlynus o feithrin gallu a chapasiti ymchwil gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Nod y strategaeth yw:

- Darparu dull cenedlaethol cydlynus o feithrin gallu ymchwil a datblygu gofal cymdeithasol
- Gwireddu effaith gadarnhaol ymchwil a datblygu ar bolisi, ymarfer a gwella gofal cymdeithasol
- Cryfhau'r cysylltiadau rhwng ymchwil, polisi, ymarfer a gwella gofal cymdeithasol.

Mae'n ceisio dod ag ymarfer ac ymchwil gofal cymdeithasol yn nes trwy rannu camau gweithredu, cyfrifoldebau ac atebolrwydd, a chytuno arnynt. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar bum maes:

Maes ffocws 1 – Cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil gofal cymdeithasol

Maes ffocws 2 – Blaenoriaethau ymchwil

Maes ffocws 3 – Defnyddio data cyfredol a data sy'n cael ei gasglu fel mater o drefn

Maes ffocws 4 – Datblygu'r gweithlu a sefydliadau

Maes ffocws 5 – Cyfathrebu a defnyddio ymchwil

Cafodd y crynodeb o'r adborth ar yr ymgynghoriad ei gyflwyno hefyd i Grŵp Ymchwil a Datblygu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn ei gyfarfod ym mis Hydref. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol ac aelodau'r Grŵp Datblygu Strategaeth sy'n gyfrifol

¹ <https://www.ymchwiliiechydagofal.llyw.cymru/>

² <https://www.ymchwiliiechydagofal.llyw.cymru/ysgol-ymchwil-gofal-cymdeithasol/?force=2>

am ddrafftio'r strategaeth. Roedd y grŵp yn cytuno â'r ymatebion yn yr adroddiad hwn i'r sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad.

1.2 Ymgynghoriad a methodoleg

Fe gyhoeddod ni'r strategaeth a mynd ati i ymgynghori arni ar ran pawb a gyfrannodd. Bu'r ymgynghoriad ar agor am wyth wythnos o 26 Mehefin tan 21 Awst 2017, a chafwyd ymatebion gan amrywiaeth eang o sefydliadau o Gymru a thu hwnt.

Ystyriwyd bod hwn yn ymgynghoriad traws-sector, ac yn gyfle gwerthfawr i ddeall a oedd y strategaeth yn dderbyniol ac yn adlewyrchu'r agenda ymchwil a datblygu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Ni, fel y corff a oedd yn arwain y gwaith o ddatblygu'r strategaeth, oedd yn gyfrifol am yr ymgynghoriad ac am gasglu ymatebion. Aeth aelodau'r rhwydwaith ati i rannu ac annog yr ymgynghoriad mor eang â phosibl ymhlith y gweithlu a rhanddeiliaid eraill.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys dwy ddogfen; fersiwn ddrafft o'r strategaeth ymchwil a datblygu gofal cymdeithasol i Gymru 2017-2022 a dogfen gryno. Cyhoeddwyd arolwg ar-lein ar Survey Monkey i gasglu ymatebion.

Gofynnwyd i ymatebwyr wneud sylwadau ar y canlynol:

- a yw'r strategaeth yn mynd i'r afael â'r prif ffactorau i wella ansawdd a maint ymchwil gofal cymdeithasol yng Nghymru, a'r ffordd y mae'n cael ei defnyddio
- a yw'r amcanion a amlinellir o dan y pum maes ffocws allweddol yn briodol ac i ba raddau maen nhw'n cipio'r cynnydd ym mhob maes
- a oes angen i'r strategaeth ganolbwyntio ar unrhyw feysydd ffocws allweddol eraill.

2. Canfyddiadau yn dilyn yr ymgynghoriad

Cafwyd 34 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd yr ymatebion hyn yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda llawer ohonynt yn adlewyrchu'r angen am ddogfen o'r fath ac yn croesawu ei chyflwyniad.

Sylwadau ar y strategaeth

“Mae'n dda gweld dull cenedlaethol cydlynus o feithrin gallu ymchwil a datblygu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Yn arbennig, rydyn ni'n croesawu'r pwyslais ar dystiolaeth ymchwil yn gwneud mwy o gyfraniad at drefnu a darparu gofal cymdeithasol, ac at gryfhau'r cysylltiadau rhwng ymchwil, polisi, ymarfer a gwella gofal cymdeithasol.”

“Mae'r pum maes ffocws hyn yn ddigon eang i gipio'r holl amcanion perthnasol. Fodd bynnag, dylai amcanion manwl gywir ym mhob maes fod yn hyblyg ac ymatebol i faterion mewnol ac allanol sy'n codi gydol oes y strategaeth.”

Roedd 59% yn cytuno bod pob un neu'r rhan fwyaf o'r ffactorau a fydd yn gwella ansawdd a maint ymchwil yng Nghymru, a'r ffordd y mae'n cael ei defnyddio, yn cael sylw yn y strategaeth. Roedd 41% arall yn cytuno bod rhai o'r ffactorau hyn yn cael sylw yn y strategaeth.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, roedd partneriaid (Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru) yn cytuno â'r ymatebion a gafwyd gan nifer fawr o ymgynghoreion bod y strategaeth yn annog gweithio mewn partneriaeth i feithrin gallu ymchwil a datblygu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Teimlwyd bod angen cyfeirio at y cyfraniad y gall sefydliadau trydydd parti ei wneud i helpu i gyflawni'r nod hwn.

Fel y nodir uchod, bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu rhannu hefyd gyda Bwrdd Cyflawni Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru/Grŵp Cydgysylltu Strategol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru.

Croesewir y ddogfen ar y cyfan, mae'r cynnwys a'r strwythur yn briodol a bydd y pum maes ffocws, fel y'u diffinnir, yn sicrhau bod Cymru'n cael ei chydabod yn rhyngwladol am ei hymchwil gofal cymdeithasol rhagorol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod y rhain yn adlewyrchu materion polisi yn gywir, gan nodi'r canlynol:

“Mae'r pum maes ffocws yn iawn ar gyfer pum mlynedd y strategaeth.”

“Mae'n ymddangos bod y pum prif faes yn rhoi sylw i'r elfennau allweddol sy'n ofynnol gan strategaeth ymchwil gofal cymdeithasol, ac yn adlewyrchu blaenoriaethau gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru yn glir.”

Cafwyd sylwadau cadarnhaol ar bob adran, yn croesawu'r strategaeth. Gwnaed sylwadau ar rai materion, brawddegau a geiriau. Mae gwelliannau a awgrymwyd wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn a byddant yn llywio newidiadau i'r fersiwn derfynol.

Er eu bod yn cytuno bod angen strategaeth genedlaethol, roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo nad oedd rhai materion yn cael eu trafod mewn digon o fanylder. Roedd y rhain yn ymwneud â sut yn union y byddai'r pum maes ffocws yn cael eu cyflawni, neu'r diffyg manylion gweithredu. Mae'r sylwadau hyn yn ddefnyddiol iawn a byddant yn cael eu trafod wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu.

3. Materion yn codi

Cafwyd ymatebion cadarnhaol ar y cyfan, ond daeth amryw o themâu i'r amlwg ynghylch meysydd i'w datblygu ymhellach. Cafwyd sylwadau ar y meysydd canlynol gan amryw o ymatebwyr, neu cawsant eu nodi gan un ymatebydd oedd yn codi mater pwysig.

3.1 Yr angen am gyllid ymchwil wedi'i glustnodi ar gyfer gofal cymdeithasol – yr un fath ag ar gyfer y GIG

Un mater a godwyd gan amryw o ymatebwyr oedd y diffyg cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer gofal cymdeithasol, yn enwedig o gymharu â chyllid ar gyfer y GIG neu ymchwil iechyd ehangach. Yn ôl sylwebyddion, er mwyn i'r strategaeth allu cael ei datblygu, bydd angen cyllid ymchwil gofal cymdeithasol pwrpasol.

Nodwyd angen o'r fath mewn amryw o feysydd, megis cymorth ar gyfer cymwysterau uwch trwy ymchwil gofal cymdeithasol i gyllid ar gyfer prosiectau gofal cymdeithasol penodol, ynghyd â'r angen i gydnabod y costau ymchwil i ddarparu'r gofal cymdeithasol a chomisiynwyr a bod angen i gostau o'r fath gael eu cefnogi trwy gyllideb benodol, megis y rhai sydd ar gael ar gyfer ymchwil y GIG.

Un amcan ar gyfer y cynllun gweithredu yw y bydd Gofal Cymdeithasol Cymru, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnal adolygiad ar y cyd o'r cyllid sydd ar gael i gefnogi ymchwil gofal cymdeithasol, i nodi lle mae angen cyllid ac i ddatblygu cynllun pum mlynedd cychwynol i bennu sut y gellir cynyddu'r cyllid.

3.2 Yr angen i ddatblygu ymchwilwyr mewn gofal cymdeithasol

Un o themâu allweddol y strategaeth oedd yr angen i ddatblygu'r gallu a'r cyfleoedd sydd ar gael i ymarferwyr gofal cymdeithasol gynnal ymchwil. Cafodd y nod hwn gefnogaeth fawr ond, ar yr un pryd, nodwyd rhwystrau i gyflawni nod o'r fath.

Roedd sylwadau'n canolbwyntio ar y diffyg cyllid ar gyfer ymchwil gan ymarferwyr, yr angen am gymorth ac arweiniad pan oedd ymarferwyr yn cychwyn ar eu hymchwil, pwysau llwyth gwaith yn cyfyngu ar amser i wneud ymchwil a'r diffyg cymorth gan gyflogwyr i alluogi ymarferwyr i wneud ymchwil. Yn ogystal, pwysleisiwyd bod angen i ymarferwyr sy'n gwneud ymchwil adlewyrchu ystod ehangach o ymarferwyr na gweithwyr cymdeithasol, gyda Therapyddion Galwedigaethol a'r angen am ymchwil mewn gofal preswyl yn cael eu nodi fel enghreifftiau penodol. Nododd llawer o ymatebwyr hefyd bwysigrwydd ymgysylltu â'r sector annibynnol.

Bydd y cynllun gweithredu'n cyfeirio'n benodol at y llwybrau posibl i gefnogi ymchwil gan ymarferwyr, gan gynnwys y cynllun grantiau bach sy'n cael ei ddatblygu gan Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru. Bydd yn cyfeirio hefyd at ddarpariaeth cyngor ac arweiniad i ymarferwyr sy'n gwneud ymchwil a'r cymorth a roddir gan yr Uned Cynorthwyo Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r rolau hyn yn rhan o gylch gwaith Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru, ac fe'u hariennir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Bydd y cynllun gweithredu'n ceisio datblygu cysylltiadau hefyd rhwng ymchwil a wneir fel rhan o raglenni dysgu megis DAPP ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a'r fframwaith dysgu a datblygu ar gyfer Therapyddion Galwedigaethol. Bydd Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru yn ceisio cefnogi ymchwil mewn lleoliadau megis cartrefi gofal a gwasanaethau gofal eraill trwy rwydwaith newydd ENRICH ('*Enabling Research in Care Homes*') a My Home Life Cymru, gyda'r ddau yn cael eu cyflwyno gan yr Ysgol a'r Centre for Dementia and Ageing Research (CADR) a'r Centre for Innovative Ageing. Bydd mwy o bwyslais ar wybodaeth a sgiliau mewn ymchwil yn cael ei gynnwys wrth ddatblygu cymwysterau a rhaglenni hyfforddiant.

3.3 Cafwyd sawl cais am gynrychiolaeth ehangach ar gyfer y grŵp datblygu strategaeth

Cafwyd amryw o sylwadau ar yr angen am gyfraniad ehangach wrth ddatblygu'r strategaeth ymchwil a datblygu o ran sectorau a grwpiau proffesiynol. Ceisiodd y Grŵp Datblygu Strategaeth gynnwys grwpiau allweddol ymarferwyr, darparwyr, comisiynwyr a rheoleiddwyr a staff academiaidd wrth ddatblygu'r strategaeth. Fodd bynnag, wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu, bydd yna lawer mwy o gyfleoedd am gyfraniad ehangach yn cryfhau cynrychiolaeth y trydydd sector, comisiynwyr, awdurdodau lleol ac aelodau'r cyhoedd.

Bydd y cynllun yn canolbwyntio ar y pum maes a nodir yn y strategaeth a'r amcanion a argymhellwyd. Rhagwelir y bydd gan bob maes ffrwd gwaith gyda chyfleoedd am gyfraniad ehangach. Y nod yn y pen draw yw datblygu cymuned eang o ddiddordeb

mewn ymchwil a datblygu a fydd yn adlewyrchu'r ddaearyddiaeth, y materion a'r grwpiau sy'n rhan o ofal cymdeithasol ledled Cymru. Ystyrir y ffordd orau o sefydlu a chefnogi cymuned neu gymunedau o ddiddordeb o'r fath. Nodir bod amryw o bartneriaid yn cymryd rhan weithredol yn y prosesau hyn a fydd yn cael eu hymestyn a'u datblygu ymhellach mewn cydweithrediad â Gofal Cymdeithasol Cymru.

3.4 Yr angen i bwysleisio pwysigrwydd cynhwysiant a chyfraniad at ymchwil

Roedd cynhwysiant yn y broses ymchwil a datblygu yn egwyddor bwysig yn y strategaeth fel y gellir datblygu'r ymdeimlad ehangaf posibl o berchnogaeth mewn perthynas â'r ymchwil a chanfyddiadau'r ymchwil. Roedd sylwadau'n cefnogi egwyddor o'r fath ac yn pwysu am gymaint o gynhwysiant â phosibl. Mae angen i'r egwyddor hon fod yn berthnasol i'r ystod o weithgareddau sy'n rhan o'r ymchwil, gan gynnwys wrth bennu blaenoriaethau ymchwil. Cafodd yr angen i gynnwys ystod eang o ddiddordebau sylw pellach, gan gynnwys cyfraniad gweithredol unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth, gofalywr, plant a phobl ifanc ac ymarferwyr.

Mae gwaith wedi cychwyn eisoes gydag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i weld sut y gellir cyflawni a chynnal cyfraniad ystyrion gan y cyhoedd mewn ymchwil gofal cymdeithasol. Mae yna gynlluniau hefyd i adeiladu ar brofiad canolfannau ymchwil megis CASCADE ym Mhrifysgol Caerdydd, sydd wedi cynnwys plant sy'n derbyn gofal yn y broses ymchwil. Bydd mwy o fanylion am y camau hyn yn y cynllun gweithredu.

3.5 Yr angen i gydweithredu/gydgysylltu ag ystod ehangach o sefydliadau eraill

Un thema a gododd dro ar ôl tro yn yr ymatebion oedd yr angen i weithio gydag ystod ehangach o sefydliadau wrth ddatblygu'r agenda ymchwil a datblygu yng Nghymru. Soniwyd am gyfraniad y trydydd sector yn aml, gyda sefydliadau megis yr NSPCC eisiau gwneud mwy o gyfraniad. Yn ogystal, cafwyd ymateb gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol yn mynegi eu dymuniad i gael cyfrannu mwy at yr agenda ymchwil yng Nghymru.

Gellir ystyried bod pob un o'r sylwadau hyn yn cynrychioli ymateb cadarnhaol iawn i'r syniadau a gyflwynir yn y strategaeth, ac roedd y farn gyffredinol a fynegwyd o blaid mwy o gyfraniad gan bob math o grwpiau megis ymarferwyr, uwch reolwyr ac aelodau'r cyhoedd, gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol. Thema arall oedd y dymuniad i gael mwy o fanylion am sut y byddai'r strategaeth yn cael ei rhoi ar waith. Ystyriwyd y strategaeth fel fframwaith eang sy'n amlinellu cyfeiriad. Nawr bod yna gefnogaeth eang ar gyfer y cyfeiriad hwnnw, y cam nesaf fydd ychwanegu manylion sut y bydd y strategaeth yn cael ei datblygu i'r dyfodol ac ystyried sut y gellir symud y diddordeb a adlewyrchir yn y sylwadau ymlaen i'r camau nesaf.

4. Camau nesaf

Yn ogystal â pharatoi cynllun gweithredu gyda chamau manwl, rydym yn cynnig y dylid cymryd y camau canlynol i symud y strategaeth yn ei blaen. Rydym yn awgrymu y dylai partner arwain ar gydgysylltu'r gwaith ym mhob maes ffocws.

4.1 Mân newidiadau i'r strategaeth

Bydd mân newidiadau'n cael eu gwneud i frawddegau a geiriau lle awgrymwyd gwelliannau.

4.2 Maes ffocws 1 – Cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil gofal cymdeithasol

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn cefnogi a galluogi cynnwys y cyhoedd, gan gynnwys unigolion sy'n derbyn gwasanaethau a gofalwyr mewn ymchwil gofal cymdeithasol trwy'r Rhwydwaith Cynnwys Pobl (IPN) a Bwrdd Cyflawni Cynnwys y Cyhoedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Roedd aelodau'r IPN yn rhan o'r grŵp a ddatblygodd y strategaeth hon. Un o flaenoriaethau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, fel rhan o'i gynllun strategol a thrwy adolygu'r Rhwydwaith Cynnwys Pobl, yw hwyluso a galluogi cynnwys y cyhoedd ym mhob maes ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol priodol.

4.2.1 Datblygu'r cynllun gweithredu

Bydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn arwain ar y maes ffocws hwn gan ddefnyddio proses ddatblygu gynhwysol.

4.3 Maes ffocws 2 – Blaenoriaethau ymchwil

Wrth sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru, cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y dylem ganolbwyntio ar dair blaenoriaeth strategol:

- Gofal a chymorth yn y cartref
- Plant sy'n derbyn gofal
- Dementia

Bydd meysydd eraill yn cael eu hystyried hefyd fel rhan o'r gwaith o bennu blaenoriaethau ymchwil. O fewn y meysydd blaenoriaeth hyn, byddwn yn nodi gwaith wedi'i gwblhau, gallu ymchwil a rhaglenni ymchwil newydd sydd eu hangen. Prif nod sefydlu blaenoriaethau ymchwil fydd nodi mecanweithiau ar gyfer cyflwyno diddordeb eang mewn gofal cymdeithasol i'r broses hon.

4.3.1 Datblygu'r cynllun gweithredu

Rydym yn cynnig arwain ar sefydlu blaenoriaethau ar gyfer ymchwil. I wneud hyn, byddwn yn sefydlu is-grŵp i gynrychioli amrywiaeth eang o ddiddordebau. Byddwn yn edrych ar ffyrdd newydd o weithio i alluogi amrywiaeth eang o ddiddordebau i gael eu cynnwys ac i helpu i nodi meysydd blaenoriaeth.

Mae'r is-grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Gofal Cymdeithasol Cymru, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru a'r cyhoedd. Gofynnwyd iddo fynd ati i ddatblygu'r cynllun gweithredu a fydd yn gosod targedau ac yn argymhell mecanwaith ar gyfer pennu blaenoriaethau ymchwil, gan gynnwys penderfynu sut y bydd adnoddau'n cael eu dyrannu yn erbyn meysydd ymchwil blaenoriaeth.

4.4 Maes ffocws 3 – Defnyddio data cyfredol a data sy'n cael ei gasglu fel mater o drefn

Rydym yn datblygu Set Ddata Gofal Cymdeithasol Genedlaethol i Gymru. Bydd y set ddata hon yn cadw data ar y cyflenwad a'r galw am wasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru. Byddwn yn gweithio gydag Uned Ddata Cymru ac eraill i gytuno ar ba ddata i'w gynnwys, ble a sut y bydd y data hwn yn cael ei gasglu a sut y gall eraill ddefnyddio a chael mynediad at y set ddata. Disgwylir y bydd set ddata gychwynnol yn cael ei chyhoeddi yn ystod gwanwyn 2018. Bydd Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru yn rhan o'r gwaith hwn.

Bydd y cysylltiad rhwng darparu gwasanaethau a chanlyniadau yn hollbwysig i ddatblygiad llwyddiannus y set ddata. Mae yna fanteision posibl o weithio'n agos gyda'r Secure Anonymised Information Linkage Database (SAIL) i gysylltu data ar ganlyniadau gofal cymdeithasol i ddeall darpariaeth gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru. Rydym eisiau gweithio gyda SAIL i ymchwilio i ba wybodaeth am anghenion gofal a chymorth unigolion all gael ei chyflenwi i gyfrannu at y Set Ddata a chefnogi gwaith ymchwil yn y dyfodol.

4.4.1 Datblygu'r cynllun gweithredu

Byddwn yn creu grŵp i gynghori ar ddatblygiad y Set Ddata Genedlaethol, i benderfynu ar ba ddata pellach sydd i'w ychwanegu ac i fonitro datblygiad y set ddata a'r defnydd ohoni.

4.5 Maes ffocws 4 – Datblygu'r gweithlu a sefydliadau

Bydd y maes ffocws hwn yn hollbwysig i roi'r strategaeth ar waith. Bydd angen iddo ganolbwyntio ar sicrhau bod gan ymarferwyr ac eraill y sgiliau, yr amser a'r adnoddau i wneud ymchwil a defnyddio canfyddiadau'r ymchwil honno, ynghyd â datblygu gweithlu

cryfach o ymchwilwyr academiaidd. Bydd angen cefnogi datblygiad diwylliannau ymchwil o fewn sefydliadau gofal cymdeithasol hefyd. Mae angen datblygu seilwaith lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i greu cymuned ymchwil a datblygu. Bydd angen i hyn gwmpasu addysg ac ymarfer, ynghyd â derbynyddion gofal a chymorth, gan gynnwys darparu mynediad at adnoddau seiliedig ar dystiolaeth i aelodau'r cyhoedd.

4.5.1 Datblygu'r cynllun gweithredu

Cynigir y dylai Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru arwain y gwaith o ddatblygu'r cynllun gweithredu gan ei fod yn cael ei ariannu gyda'r cylch gwaith hwn o ran helpu ymarferwyr ac eraill i ddatblygu sgiliau ymchwil. Bydd angen i ddatblygiad o'r fath gynnwys pob partner allweddol wrth ddatblygu'r strategaeth ymchwil a datblygu. Yn ogystal, mae gan Uned Gymorth Ymchwil lechyd a Gofal Cymru gylch gwaith i helpu ymchwilwyr i gynllunio a chynnal prosiectau ymchwil. Fel rhan o'n rôl o wella gwasanaeth, mae gennym gyfraniad i'w wneud at annog sefydliadau gofal cymdeithasol i nodi a gweithredu modelau gofal yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael. Bydd dwyn yr adnoddau a'r diddordebau hyn ynghyd mewn fframwaith cymorth cydlynol, gan adeiladu ar waith mae Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru wedi ei gychwyn eisoes, yn hollbwysig i lwyddiant yr ymchwil.

4.6 Maes ffocws 5 – Cyfathrebu a defnyddio ymchwil

Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE) i ddatblygu adnodd ar-lein ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru ar ein gwefan. Bydd hwn yn adnodd defnyddiol i ddarparu a chyfathrebu allbynnau o waith ymchwil. Bydd hefyd yn galluogi cysylltiadau rhwng meysydd gwaith eraill, gan gynnwys datblygu'r gweithlu a gwella gwasanaeth, gan alluogi ymarferwyr i gael mynediad at yr adnoddau a'r allbynnau diweddaraf o waith ymchwil.

Hoffem hefyd ddefnyddio grwpiau rhwydweithio presennol megis DEEP³ a My Home Life Cymru⁴ sy'n rhwydweithiau sydd wedi hen ennill eu plwyf sy'n cynnig cyngor a chymorth ar ffyrdd gwell o weithio i ddiwallu anghenion pobl sy'n derbyn gofal a chymorth.

Mae rhwydweithiau eraill yn cynnwys CASCADE Voices⁵, sef grŵp o bobl ifanc â phrofiad gofal sy'n cynghori ar brosiectau ymchwil, ac ExChange⁶ gan Brifysgol Caerdydd, sef sefydliad gofal cymdeithasol Cymru gyfan sy'n galluogi ymarferwyr, defnyddwyr gwasanaethau ac ymchwilwyr i rannu arbenigedd a phrofiad. Rydym yn cysylltu â'r rhwydweithiau hyn i sicrhau bod gweledigaeth y strategaeth yn cael ei chyflawni a bod ei hallbwn yn cael ei werthfawrogi. Byddwn yn gweithio hefyd gyda rheoleiddwyr a chyrrff proffesiynol eraill, gan gynnwys Arolygiaeth Gofal a

³ <http://dementiavoices.org.uk/>

⁴ <http://myhomelife.org.uk/>

⁵ <http://sites.cardiff.ac.uk/cascade/people/young-peoples-advisory-group/>

⁶ <http://www.exchangewales.org/>

Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS) i sicrhau bod gwybodaeth ac arfer da ar fodelau gwasanaeth newydd ar gael.

4.6.1 Datblygu'r cynllun gweithredu

Byddwn yn arwain y gwaith o ddatblygu'r rhan hon o'r cynllun gweithredu.

5. Casgliad

Rydym yn cynnig y dylid cyhoeddi strategaeth derfynol yn gynnar yn 2018, gyda chynllun gweithredu a ysgrifennwyd gan y sefydliadau a ddatblygodd y strategaeth. Bydd y ddau yn adlewyrchu safbwyntiau ac awgrymiadau sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad, fel y nodir yn yr adroddiad hwn.

Bydd y strategaeth derfynol yn cael ei lansio ym mis Chwefror 2018 a'i rhoi ar waith o 2018-19 ymlaen.